



Tyfu Canolbarth Cymru Gorffennaf 2025

Croeso i rifyn Gorffennaf o'r Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru!

Gyda Sioe Frenhinol lwyddiannus arall y tu ôl i ni, mae'r diweddariad y mis hwn yn adlewyrchu rhai o amseroedd allweddol y digwyddiad ac yn tynnu sylw at y gwaith parhaus i gefnogi twf cynaliadwy ar draws y rhanbarth. O gynnydd ar ynni clyfar a datgarboneiddio mewn amaethyddiaeth, i ddatblygiadau mawr mewn gweithgynhyrchu uwch a chymorth busnes, mae wedi bod yn ychydig wythnosau adeg prysur a chynhyrchiol.

Rydym hefyd yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd cyllido cyffrous, newidiadau tîm, a'r diweddariad o'n partneriaethau rhanbarthol. P'un a ydych chi wedi ymuno â ni yn y Sioe neu'n dal i fyny nawr, rydym yn gobeithio y bydd y rhifyn hwn yn cynnig cipolwg ar y momentwm sy'n adeiladu ar draws Canolbarth Cymru - a sut y gallwch gymryd rhan wrth lunio'r hyn a ddaw nesaf.

Tîm Tyfu Canolbarth Cymru

[Clawr: Tyfu Canolbarth Cymru, Sioe Frenhinol 2025]

Cynnwys

- Cynnydd a phartneriaeth yn y Sioe Frenhinol: Arweinwyr yn myfyrio ar y Fargen Dwf a buddsoddiad ehangach yng Nghanolbarth Cymru

- Ysgogi Cynnydd yn y Sioe Frenhinol: Arloesedd a chydweithio yn gyrru llwyddiant Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd
- Mae amser o hyd i wneud cais am gyllid..
- Rhannu atebion clyfar ar ynni cynaliadwy mewn amaethyddiaeth yn Sioe Frenhinol Cymru
- Astudiaethau Achos: Datgarboneiddio Amaethyddiaeth yng Nghanolbarth Cymru
- Galw ar bob busnes gweithgynhyrchu - Dywedwch wrthym beth sydd ei angen arnoch
- Ffarwel a chroeso cynnes
- Gwobrau Busnes Powys – cofrestrwch erbyn 27 Gorffennaf!

Cynnydd a phartneriaeth yn y Sioe Frenhinol: Arweinwyr yn myfyrio ar y Fargen Dwf a buddsoddiad ehangach yng Nghanolbarth Cymru

Ymunodd uwch gynrychiolwyr o Lywodraethau'r DU a Llywodraeth Cymru â Tyfu Canolbarth Cymru ar Faes y Sioe Frenhinol ddydd Llun 21 Gorffennaf 2025 i fyfyrio ar y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud ar draws y rhanbarth - ac i ailddatgan eu hymrwymiad cyffredin i ddatgloi buddsoddiad a chyfleoedd pellach.

Gyda llawer o fenterau yn paratoi i fynd i'r cyfnod cyflawni dros y 12-15 mis nesaf, mae momentwm yn codi ar draws y Fargen Dwf wrth i Ganolbarth Cymru edrych i'r dyfodol a thrafod sut mae cydweithio yn parhau i yrru datblygiad economaidd yn y rhanbarth.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Fargen wedi parhau i symud ymlaen, gyda chyflawniadau allweddol gan gynnwys:

- Lansio Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru, sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i ddatblygu gofod masnachol o ansawdd uchel ledled y rhanbarth.
- Cymeradwyaeth achos busnes llawn ar gyfer prosiectau trwy'r Rhaglen Ddigidol, gan helpu i wella cysylltedd band eang mewn ardaloedd gwledig ac anodd eu cyrraedd.
- Cynnydd mewn meysydd allweddol fel twristiaeth, meithrin arloesedd a gwytnwch mewn sectorau sylfaenol.

Mae'r Fargen Dwf yn rhan o set ehangach, integredig a chyflenwol o fentrau sy'n cael eu gyrru gan Tyfu Canolbarth Cymru - wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â heriau hirsefydlog wrth adeiladu ar gryfderau ac asedau unigryw'r rhanbarth. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn helpu i greu'r amodau ar gyfer twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol. Y tu hwnt i'r Fargen Dwf, mae'r rhanbarth hefyd wedi gwneud camau sylweddol trwy weithgareddau eraill gan Tyfu Canolbarth Cymru:

- Mae buddsoddiad gan Gronfa y Ffyniant Cyffredin (UKSPF) yn cefnogi adfywio yn seiliedig ar leoedd a thwf busnes lleol.
- Mae prosiectau ynni yn datblygu modelau newydd ar gyfer systemau ynni glân, gwledig trwy gyllid arloesi.
- Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn parhau i alinio hyfforddiant ag anghenion cyflogwyr, a
- Mae gwaith ar y gweill ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd i wella cysylltedd ar draws Canolbarth Cymru.

Darllenwch y stori lawn ar ein [gwefan](#).



1 - (Ch-Dd) Y Cyngorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys, Gweinidog Swyddfa Cymru, y Fonesig Nia Griffith, ac y Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion. Y Sioe Frenhinol 2025.

Ysgogi Cynnydd yn y Sioe Frenhinol: Arloesedd a chydweithio yn gyrru llwyddiant Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd

Cynhaliwyd arddangosfa o arloesedd a chydweithrediad arloesol yn Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru ddydd Llun 21 Gorffennaf 2025, wrth i Dyfu Canolbarth Cymru a'i bartneriaid gynnal digwyddiad 'Ysgogi Cynnydd: Arloesi a Chyllid mewn Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd'.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn Nhŵr Brycheiniog, a ddaeth â busnesau technoleg amaeth a thechnoleg bwyd, cyllidwyr, ac aelodau clwstwr at ei gilydd; Uchelgais Gogledd Cymru, Arloesi Aber, M-Sparc, Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) Cymru -Y Brifysgol Sheffield, Llywodraeth Cymru, Innovate UK, a rhanddeiliaid eraill i archwilio cyfleoedd ar gyfer arloesi, rhannu straeon llwyddiant ariannu, ac annog cydweithredu traws-sector.

Fel rhan o feithrin arloesi yn y clwstwr technoleg amaeth a thechnoleg bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru, roedd y sesiwn yn dathlu effaith cyllid pwynt lansio Innovate UK, ac yn cynnwys prosiectau fel Tirlun.ai, Terrafarmer, Diagnostig Ltd, Pennog Ltd, Chitexo Ltd, Neurobotics Ltd, Arcitekbio Ltd, a SmartApiary.

Rhannodd Dr Jonathan Hughes, Pennotec (Pennog Ltd): "Mae bod yn rhan o'r clwstwr hwn wedi rhoi mwy na chyllid yn unig i ni - mae wedi agor y drws i gyfnewid gwybodaeth, cefnogaeth a phartneriaethau a fydd yn helpu i ehangu ein arloesiadau yn yr Economi Gylchol yn llwyddiannus."

Daeth y sesiwn i ben gyda rhwydweithio anffurfiol a chyfleoedd i fusnesau gyflwyno syniadau, meithrin partneriaethau a chofrestru i grwpiau clwstwr. Mae llwyddiant y digwyddiad yn atgyfnerthu enw da cynyddol Canolbarth a Gogledd Cymru fel canolfan ar gyfer arloesi a thwf cynaliadwy yn y sectorau bwyd-amaeth a thechnoleg amaeth.

Gall busnesau sydd â diddordeb mewn ymuno â'r clystyrau Bwyd-Amaeth neu Dechnoleg Bwyd a chael gwybodaeth am gyfleoedd ariannu yn y dyfodol ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru:

Darllenwch y stori lawn ar ein [gwefan](#).

Arloesedd a chydweithio yn gyrru llwyddiant Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd



Innovation and collaboration drive Agri-Tech and Food-Tech success



Innovate UK



Mae amser o hyd i wneud cais am gyllid..


Gall busnesau, Amaeth-dechnoleg a thechnoleg bwyd, Canolbarth a Gogledd Cymru, sydd wedi'u cofrestru gan CRDUK - wneud cais am gyfran o hyd at £2.7 miliwn ar gyfer prosiectau a arweinir gan fusnesau sy'n tyfu eu gweithgareddau arloesi yn y clwstwr technoleg amaeth a thechnoleg bwyd yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru. Daw'r cyllid hwn gan Innovate UK.

Mae rhagor o fanylion am y gystadleuaeth ar gael ar dudalen cystadleuaeth Innovate UK:
<https://apply-for-innovation-funding.service.gov.uk/competition/2212/overview/4411087f-2a92-4aed-b735-d1a813376bec#summary>

Mae'r gystadleuaeth yn cau Dydd Mercher, 20 Awst 2025, 11:00am.

Yn y ddolen fideo isod, mae Prif Swyddog Gweithredol Arloesi Aber, Rhian, yn rhannu'r sgŵp mewnol ar Launchpad newydd Innovate UK – pwy sydd y tu ôl iddo, pa gefnogaeth sydd ar gael, a sut y gallai fod yn newidiwr gêm i'ch busnes amaeth-dechnoleg neu dechnoleg bwyd. Mae hi hefyd yn rhannu ei prif awgrymiadau i helpu eich cais i sefyll allan wrth wneud cais am gyllid Innovate UK.

Ewch i'w weld yma: <https://youtube.com/shorts/Am79AgB9kb8?feature=shared>



2 - <https://youtube.com/shorts/Am79AgB9kb8?feature=shared>

Rhannu atebion clyfar ar ynni cynaliadwy mewn amaethyddiaeth yn Sioe Frenhinol Cymru

Archwiliwyd dulliau arloesol o ymdrin ag ynni cynaliadwy mewn amaethyddiaeth yn Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru yr wythnos hon yn ystod sesiwn rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan Tyfu Canolbarth Cymru ar 21 Gorffennaf.

Tynnodd y sesiwn sylw at gynnydd a gefnogir drwy gronfa her Ymchwil ac Arloesi Systemau Cyfan mewn Datgarboneiddio (WSRID) Llywodraeth Cymru, sy'n helpu i nodi ffyrdd ymarferol o leihau allyriadau amaethyddol tra'n cefnogi economïau gwledig. Roedd hefyd yn llwyfan gwerthfawr ar gyfer trafodaeth ar sut y gall ynni yrru twf rhanbarthol cynaliadwy yng Nghanolbarth Cymru.

Darllenwch y stori lawn ar ein [gwefan](#).



3 - Digwyddiad Rhannu atebion clyfar ar ynni cynaliadwy mewn amaethyddiaeth, Tŵr Brycheiniog, Y Sioe Frenhinol Cymru 2025

Astudiaethau Achos: Datgarboneiddio Amaethyddiaeth yng Nghanolbarth Cymru

Mae Cam 1 y rhaglen Ymchwil ac Arloesi System Gyfan ar gyfer Datgarboneiddio (WSRID) - a ddarperir gan Tyfu Canolbarth Cymru ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru - wedi dod â mewnwelediadau gwerthfawr i sut y gall Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES) gefnogi datgarboneiddio ar draws yr economi wledig.

Trwy bum astudiaeth ddichonoldeb, mae'r rhaglen wedi datblygu ein dealltwriaeth o sut y gall y systemau hyn fynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti grid, rhoi hwb i hunangynhaliaeth ynni gwledig, a lleihau allyriadau—gan osod y sylfaen ar gyfer Cam 2, a fydd yn canolbwyntio ar brofion yn y byd go iawn a llwybrau i fasnacheiddio.

Mae'r canfyddiadau yn tynnu sylw at y manteision sylweddol y gellir eu cyflawni trwy ddefnydd arloesol o dechnolegau sefydledig a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. O fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd ynni a rheoli gwastraff amaethyddol, i wella iechyd ecolegol ein cyrsiau dŵr a lleihau llwyth ynni cymunedau gwledig, mae'r prosiectau hyn yn cynnig atebion ymarferol a all yrru gostyngiadau carbon wrth ysgogi twf economaidd lleol.

Mae dau brosiect amaethyddol arloesol a ariennir drwy Gam 1 yn arwain y ffordd wrth archwilio sut y gall ffermydd gyfrannu at uchelgeisiau sero net Cymru. Mae'r ddau yn treialu dulliau newydd o reoli adnoddau, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a lleihau allyriadau—gan gynnig modelau graddadwy ar gyfer dyfodol ffermio yng Nghanolbarth Cymru.

Darganfyddwch mwy am y brosiectau ar ein [wefan](#).



a gweld os gallwn ni wneud mantais o fe, i wneud egni a ynni mas o fe i'r diwydiant, ac hefyd i'r bobl sy'n byw yn yr ardal.



yn ddefnyddwyr annibynnol Ynni Sero Net ar gyfer eu gwres, eu cludiant, eu tanwydd a'u trydan.

Galw ar bob busnes gweithgynhyrchu - Dywedwch wrthym beth sydd ei angen arnoch

Rydym yn falch o rannu bod Cyngor Sir Powys wrthi'n datblygu cyfleuster newydd sbon yn y Drenewydd – y Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch – i gefnogi twf busnesau gweithgynhyrchu ledled canolbarth Cymru.

Bydd y Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch arfaethedig, sy'n cael ei chefnogi gan Fargen Dwf Canolbarth Cymru, yn trawsnewid mynediad at arbenigedd, sgiliau a thechnoleg uwch, gyda'r nod o wella cynhyrchiant, sbarduno arloesedd, a chyflymu twf ledled y sector – yn lleol ac yn ehangach.

Ond i sicrhau bod y cyfleuster hwn yn diwallu anghenion busnesau fel eich un chi, maen nhw angen eich mewnbwn.

Gofynnwn i fusnesau gwblhau holiadur byr i helpu i lunio'r hyn y gall y ganolfan ei gynnig. Bydd eich adborth yn eu helpu i ddeall beth sydd bwysicaf i chi—boed yn fynediad at offer, hyfforddiant, cymorth ymchwil a datblygu, neu dechnolegau newydd.

Cymerwch ychydig funudau i gwblhau'r arolwg erbyn 31 Gorffennaf 2025 os gwelwch yn dda gan ddefnyddio'r dolenni isod:

[Holiadur Canolfan Weithgynhyrchu Uwch Canolbarth Cymru](#)

Caiff rhagor o wybodaeth am y cyfleuster ei rannu yn yr hydref. Yn y cyfamser, diolch am eu helpu i lunio adnodd a fydd yn gwasanaethu cymuned weithgynhyrchu'r rhanbarth am flynyddoedd i ddod.

Os oes unrhyw beth arall y gallant ei wneud i'ch helpu, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm.

economicdevelopment@powys.gov.uk

Galw ar bob busnes gweithgynhyrchu - Dywedwch wrthym beth sydd ei angen arnoch



Helpwch lunio'r hyn y dylai Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch ei gynnig.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Ffarwel a chroeso cynnes

Wrth i dîm Tyfu Canolbarth Cymru barhau i esblygu, rydym yn ffarwelio ag ychydig o gydweithwyr sydd wedi symud ymlaen yn ddiweddar. Mae Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau'r Swyddfa Rheoli Portffolio, Lily Else ac Arinola Ogundeji, Swyddogion Cymorth Prosiect ar gyfer Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, bellach wedi gadael eu rolau.

Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda nhw, ac er ein bod ni'n drist eu gweld nhw'n mynd, dymunwn y gorau iddyn nhw yn eu mentrau nesaf!

Rydym hefyd wedi diweddarau [strwythur ein staff](#) i adlewyrchu newidiadau diweddar—edrychwch i weld pwy yw pwy ar draws tîm Tyfu Canolbarth Cymru.

Diolch i Steve Lesbirel

Hoffwn ddiolch a dymuno'r dymuniadau gorau i Steve Lesbirel wrth iddo ymddiswyddo fel Cadeirydd y Grŵp Cyngori Economaidd. Mae Steve wedi darparu arweiniad a chefnogaeth amhrisiadwy, gan helpu i lunio cyfeiriad datblygu economaidd yng Nghanolbarth Cymru.

Rydym yn ddiolchgar am ei amser a'i ymrwymiad, ac yn dymuno pob gorau iddo ar gyfer y dyfodol.



Croeso i Sue Balsom fel Cadeirydd newydd EAG

Susan Balsom, Cadeirydd Grŵp Cynggori Economaidd, a Sylfaenydd FBA (Francis Balsom Associates - Four Cymru bellach), sydd wedi ymddeol, ac y mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad marchnata a chyfathrebu ar gyfer brandiau blaenllaw o Gymru, Llywodraeth Cymru a'r holl brif gyrff cyhoeddus gan gynnwys Wales Yearbook. Cyn Berchennog Busnes Bach Cymreig a Chymraes y Flwyddyn. Mae ei gwasanaeth cyhoeddus gwirfoddol yn cynnwys bod yn aelod o Fwrdd WDA, Cyngor darlledu BBC, Ofcom, Uchel Siryf Dyfed (2017), ac un o Ymddiriedolwyr Canolfan y Dechnoleg Amgen. A hefyd, Cadeirydd Prince's Trust Cymru, gan godi £3m ar gyfer egin fusnesau.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am holl aelodau'r EAG [yma](#).

Grŵp Cynggori Economaidd

Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Fargen Twf Canolbarth Cymru, mae Grŵp Cynggori Economaidd wedi sefydlu sy'n cynnwys arweinwyr busnes y mae ganddynt arbenigedd sy'n berthnasol i ranbarth Canolbarth Cymru.

Rôl: Eu rôl yw mynegi barn byd busnes am y Fargen Twf wrth Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a hyrwyddo'r Fargen Twf yn gadarnhaol yng nghymuned fusnes Canolbarth Cymru.



Susan Balsom
Cadeirydd GCE



Meilyr Ceredig



Kristian Hicks



Douglas Hughes



Walter May



Bronwen Raine



Rik Sellwood

Newyddion eraill

Gwobrau Busnes Powys – cofrestrwch erbyn 27 Gorffennaf!



✨ Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol canolbarth Cymru yn falch iawn o noddi'r categori newydd, sef **Gwobr Partneriaeth Busnes ac Addysg**, fel rhan o **Wobrau Busnes Powys 2025**!

Mae'r wobr hon yn dathlu cydweithio rhagorol rhwng cyflogwyr a sefydliadau addysg. Mae'n cydnabod partneriaethau sy'n helpu i siapio tirwedd sgiliau'r rhanbarth ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf drwy uchelgais a chydweithrediad. 🗣️ Ydych chi'n rhan o bartneriaeth lwyddiannus rhwng busnes ac addysg yng Nghanolbarth Cymru? Sicrhewch eich bod yn enwebu! Manylion yma 📩 <https://mailchi.mp/1627a86fb726/mwmng-ebulletin-7-9-5857840?e=a2ac09fd0d>

Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan [Cyngor Sir Powys](#).
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein [gwefan](#).

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

<https://twitter.com/growingmidwales>

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

<https://www.youtube.com/@TCC-GMW>

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

